**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 22 Rhagfyr 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|
| S J Gallagher | M Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lucy Moore | Cyfreithiwr y Gyfarwyddiaeth |
| Elliott Williams | Rheolwr Cyllid Allanol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice, E T Kirchner a/ac L V Walton

---

**33 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd Ceri Evans gysylltiad personol â Chofnod Rhif 35 “Darpariaeth Cyflogadwyedd Cyngor Abertawe.”

**34 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2021 fel cofnod cywir.

**35 Cyngor Abertawe - Darpariaeth Cyflogadewyedd. (Diweddariad Llafar)**

Rhoddodd Elliott Williams, y Rheolwr Cyllid Allanol, ddiweddariad llafar ar Ddarpariaeth Cyflogadwyedd Cyngor Abertawe fel a ganlyn gan y bu rhai newidiadau sylweddol:

- Cynllun Kickstart

  Byddai'r rhaglen hon yn dod i ben yn fuan ac er na ellid hysbysebu unrhyw raglenni newydd o fis Rhagfyr 2021, gellid llenwi lleoliadau presennol tan fis Mawrth 2022 o hyd. Mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus tu hwn, gyda thros 60 o leoliadau.

O ganlyniad i raglen Kickstart, roedd gwaith yn mynd rhagddo i ymchwilio i weld a ellid datblygu prosiect dilynol tebyg ac a fyddai'n dibynnu ar gyflwyno cais am grant i Gronfa Adferiad Economaidd Abertawe.

Y gobaith yw y byddai hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran cymhwysedd yr unigolion hynny a allai gael mynediad at y ddarpariaeth fel y gallai fod ar gael i bob categori oedran, a chynyddu hyd oriau contract ar gyfer pob lleoliad, yn ogystal â darparu cefnogaeth bersonoledig a mentora.

- Llwybrau at Waith

  Cyflwynwyd cais cydweithredol llwyddiannus i Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU ym mis Ebrill/Mai eleni. Byddai'r prosiect yn cynnig cefnogaeth cyn-ymgysylltu, cefnogaeth cyflogadwyedd, cymorth sgiliau, yn hyrwyddo sgiliau digidol, clybiau swyddi a byddai'n darparu ymagwedd fwy hyblyg at gyflogadwyedd. Byddai'r cynllun yn cynnwys 6 phartner cyflwyno, gan gynnwys YMCA, Barnardo's, Coleg Gŵyr Abertawe, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe a 'Gwersylloedd Technoleg'. Y gobaith oedd datblygu llwybrau pwrpasol, gan gynnwys llwybrau digidol at gyflogaeth.

  Roedd yn werth nodi y byddai Llwybrau at Waith yn gynllun peilot 6 mis, ond byddai'n darparu cyfle i weithio gyda'r partneriaid i fesur sut y gallai darpariaeth gael ei siapio a'i phrofi cyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid Allanol y byddai'n darparu diweddariad manylach yn y cyfarfod nesaf.

## 36 Strategaeth Gofalwyr Ifanc. (Diweddariad Llafar)

Gohiriwyd y diweddariad.

## 37 Cynllun Gwaith 2021-2022.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2021-2022.

**Penderfynwyd** nodi'r Cynllun Gwaith diwygiedig.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cefnogaeth barhaus a dymunodd Nadolig Llawen iawn i bawb.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.14 pm

**Cadeirydd**